WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad er Budd y Cyhoedd – Diffygion o ran Trefniadau Llywodraethu a Rheoli Ariannol – **Cyngor Cymuned Bodorgan**

Blwyddyn archwilio: 2013-14 a 2014-15

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 694A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn nac yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd arall o'r adroddiad hwn yn llawn neu'n rhannol, nac unrhyw wybodaeth a geir ynddo, gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, na chan unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Ian Hughes a gyflawnodd y gwaith, o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion o ran trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol yng Nghyngor Cymuned Bodorgan.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Canfyddiadau manwl

Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers sawl blwyddyn 7

- Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau p'un a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer arfer hawliau cyhoeddus ai peidio 9
- Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datgeliadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflenni Blynyddol 9
- Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i a'i arian 10
- Mae effeithiolrwydd archwilio mewnol wedi cael ei leihau gan amharodrwydd i roi gwybod yn uniongyrchol i'r Cyngor am bryderon ynghylch llywodraethu gwael 12
- Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i'r afael â'r gwendidau o ran llywodraethu y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn 14

Argymhellion posibl 15

Y camau nesaf 15

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion o ran llywodraethu a rheoli ariannol yng Nghyngor Cymuned Bodorgan (y Cyngor). Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

2 Rwyf hefyd yn credu ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau mewn trefniadau llywodraethu o'r fath yn digwydd eto yn cael ei leihau gymaint â phosibl. Mae gwersi i'w dysgu gan y Cyngor, a hefyd gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

3 Mae Cyngor Cymuned Bodorgan yn gwasanaethu cymuned wledig fach a leolir ar arfordir gorllewinol Ynys Môn. Mae'n gwario ychydig o dan £10,000 y flwyddyn fel arfer, ac ariennir y gyfran fwyaf o hyn o'r praesept a thelir y balans drwy renti a ffioedd mynwentydd. Mae'n cyflogi un aelod rhan amser o staff i gyflawni rolau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (y Clerc). Penodwyd y Clerc blaenorol, Mrs Rhian Khardani, y cyfeirir ati drwy gydol yr adroddiad hwn, gan y Cyngor ym mis Ebrill 2013 ac ymddeolodd ym mis Medi 2017.

4 Credaf ei bod yn bwysig nodi, er mwyn rhoi cyd-destun, fod y Clerc blaenorol hefyd wedi dal swydd llawn amser mewn llywodraeth leol ynghyd â thair swydd ran amser fel Clerc ar yr un pryd.

5 Oherwydd oedi cyn cael gwybodaeth gan y Cyngor ynghyd â sylwadau anffafriol yn adroddiad yr Archwilydd Mewnol, penderfynodd archwilydd allanol y Cyngor (Hacker Young) ehangu cwmpas yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2013-14. Er i waith pellach gael ei wneud, ni chwblhawyd yr archwiliad am nad aeth y Cyngor i'r afael â phryder ynghylch ariannu cyfarpar cyfrifiadurol yr oedd cyngor cyfagos eisoes wedi talu amdano. O ganlyniad, neilltuwyd yr archwiliad o gyfrifon 2013-14, ynghyd â rhai 2014-15, i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru, a fu'n gweithio yn ôl fy nghyfarwyddyd i, i'w cwblhau mewn modd boddhaol.

6 Bu fy staff archwilio yn gohebu'n gyson â'r Clerc blaenorol er mwyn cael y wybodaeth yr oedd ei hangen mewn perthynas â chyfrifon 2013-14 a 2014-15, ond ni fuont yn llwyddiannus. Ar ôl hynny, gwnaethant gysylltu a chwrdd â Chadeirydd y Cyngor nad oedd yn ymwybodol o'r problemau ac a alwodd gyfarfod arbennig o'r Cyngor felly i drafod y sefyllfa.

7 Ymddeolodd y Clerc blaenorol yn fuan ar ôl i'r cyfarfod arbennig gael ei gynnal ym mis Awst 2017 ac ers hynny mae Clerc newydd wedi cael ei benodi. Mae'r Cyngor wedi cymryd sawl cam pwysig i fynd i'r afael â materion a gododd yn ystod yr archwiliad er i'w ymdrechion gael eu rhwystro gan anhawster i dderbyn ei holl gofnodion ac asedau oddi wrth y Clerc blaenorol.

8 Mae canfyddiadau fy archwiliad yn dangos diffygion hirsefydlog o ran llywodraethu a rheoli ariannol yn y Cyngor a chânt eu crynhoi isod. Cânt eu hystyried yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

9 Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers nifer o flynyddoedd. Er ei bod yn glir o ohebiaeth y Clerc blaenorol â'r archwilwyr fod y Clerc blaenorol yn hwyr yn cymryd camau gweithredu, mae'r broblem wedi ei gwreiddio'n ddyfnach na hynny ac yn adlewyrchu diffyg o drosolwg a methiant y Cyngor yn gyffredinol i dderbyn cyfrifoldeb. Mae'r Cyngor yn derbyn yn awr y dylai fod wedi gwneud mwy i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol i baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ar amser a bod aelodau wedi rhoi gormod o ddibyniaeth ar eu Clerc blaenorol heb graffu'n briodol ar ei gwaith.

10 Nid wyf wedi cael digon o dystiolaeth i ddangos bod y cyngor wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sydd (ymhlith pethau eraill), yn rhoi hawliau i'r cyhoedd edrych ar y cyfrifon i'w harchwilio.

11 Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflen Flynyddol. Mae'n amlwg i mi nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu wedi'u datgelu'n effeithiol ac yn deg. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod, na gweithredu ar ganfyddiadau cynharach ei archwilydd mewnol na'i archwilydd allanol yn ddigonol mewn perthynas â digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

12 Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i arian. Mae'r broses o gadw cofnodion yn y Cyngor wedi bod yn wael.

13 Mae effeithiolrwydd archwilio mewnol wedi cael ei leihau gan amharodrwydd i roi gwybod i'r Cyngor yn uniongyrchol am bryderon ynghylch llywodraethu gwael. Er y byddai'r Archwilydd Mewnol yn rhannu ei bryderon â'r Clerc blaenorol ac yn eu cynnwys mewn trafodaethau â'r archwilydd allanol, ni wnaeth uwchgyfeirio materion o fewn y Cyngor, megis ceisio neilltuo amser yn un o gyfarfodydd y Cyngor lle y gallai rannu ei bryderon ag aelodau yn uniongyrchol. Fel arall, gallai fod wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig manwl yn uniongyrchol i'r Cyngor i gefnogi'r amodau a nodir ar y Ffurflen Flynyddol.

14 Mae'r Cyngor bellach wedi rhoi sawl newid ar waith sy'n mynd i'r afael â'r gwendidau a'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r Cyngor wedi adolygu dyddiadau cyfarfodydd ac wedi aildrefnu cyfarfodydd i hwyluso'r broses briodol o graffu ar faterion yn ymwneud â threfniadau llywodraethu a rheoli ariannol. Mae'r Cyngor wedi cael adolygiad annibynnol o'i drefniadau ac mae wrthi'n diwygio polisïau a gweithdrefnau. Yn benodol, mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu gweithdrefnau awdurdodi taliadau ac yn rhoi trefniadau gwell ar waith i nodi a rhoi cyfrif priodol am incwm y Cyngor o renti mynwentydd ac eiddo.

15 Mae archwiliadau 2015-16 a 2016-17 wrthi'n cael eu cynnal gan fy nghyflenwr archwilio newydd, BDO. Er bod llawer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn parhau i'r ddwy flynedd hyn, mae'r Cyngor bellach yn cymryd camau priodol i wella ei drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol.

# Canfyddiadau manwl

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers nifer o flynyddoedd

16 O dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rhaid i'r Cyngor:

- paratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu'r cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau y caiff ei gyfrifon eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

17 Ceir manylion pellach am y gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio Cynghorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014[1] ac fe'u hategir gan ganllawiau a nodir mewn Canllaw i Ymarferwyr.[2]

18 Mae Rheoliad 15 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- mae'n rhaid i Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor[3] baratoi ac ardystio bod y datganiad o gyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y Cyngor. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio i hynny drwy lofnodi a dyddio'r datganiadau cyfrifyddu. Darperir ar gyfer llofnodi a dyddio mewn ffurflen flynyddol;
- mae'n rhaid i gyfarfod o aelodau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad gan y cyngor; ac ar ôl eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu'n cael eu llofnodi a'u dyddio gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y rhoddwyd y gymeradwyaeth honno; ac
- mae'n rhaid i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

[1] A Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn flaenorol.

[2] Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer cynghorau lleol yng Nghymru – canllaw i ymarferwyr (2011).

[3] Fel arfer y Clerc ond mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rôl gyfreithiol ar wahân i rôl y Clerc

19 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol rhaid ei hanfon at yr archwilydd allanol. Crynhoir y broses yn Arddangosyn 1 isod:

### Arddangosyn 1: y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Bydd yr uned archwilio mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio’r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) cyn 30 Mehefin ac yn cyflwyno’r ffurflen i’r corff.

→

Bydd y corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Mae llofnod y Cadeirydd yn y blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dyst o hyn.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon y Ffurflen Flynyddol a chopïau ardystiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a:

Naill ai:
Os nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau, yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:
Os oes angen gwneud diwygiadau, yn rhoi gwybod i'r corff am broblemau (gan gynnwys diwygiadau). Bydd y corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei hailardystio a bydd y corff yn ei hailgymeradwyo cyn ei dychwelyd at yr archwilydd. Yna bydd yr archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

20 Nid yw Cyngor Cymuned Bodorgan wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ers sawl blwyddyn (gweler Atodiad 1). Ni chafodd cyfrifon 2013-14 eu cwblhau na'u cymeradwyo tan ddiwedd mis Ebrill 2015, tua 10 mis ar ôl i'r terfyn amser statudol fynd heibio. Ni chafodd cyfrifon 2014-15 eu cwblhau tan ddiwedd mis Medi 2015, tua thri mis ar ôl i'r terfyn amser statudol fynd heibio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau cyfrifon 2015-16 a 2016-17.

21 Mae'r cofnodion archwilio yn nodi problem hirsefydlog yn y Cyngor o ran y broses hwyr o gymeradwyo a chyflwyno ei Ffurflen Flynyddol ar gyfer archwiliad mewnol yn cwmpasu deiliadaeth dau Glerc gwahanol. Er bod yr ohebiaeth ar y ffeil archwilio yn dangos bod y Clerc yn hwyr yn cymryd camau gweithredu, mae'r broblem wedi ei gwreiddio'n ddyfnach na hynny ac yn adlewyrchu diffyg o drosolwg a methiant y Cyngor yn gyffredinol i dderbyn cyfrifoldeb.

22 Mae'r Cyngor yn derbyn yn awr y dylai fod wedi gwneud mwy i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol i baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ar amser a bod aelodau wedi rhoi gormod o ddibyniaeth ar eu Clerc heb graffu'n briodol ar ei waith.

## Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau p'un a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud i arfer hawliau cyhoeddus ai peidio

23 Mae adran 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn darparu ar gyfer hawliau cyhoeddus i edrych dros y cyfrifon sydd i'w harchwilio, holi'r archwilydd am y cyfrifon a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:

- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y pŵer i lunio adroddiad o dan adran 22 o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef.

24 Mae Rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff hysbysu'r cyhoedd, drwy hysbyseb, mewn un neu fwy o fannau amlwg, gan nodi'r cyfnod pryd y bydd y cyfrifon a'r dogfennau eraill ar gael i'w harchwilio.

25 Nid wyf wedi cael digon o dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau. Felly, rwyf wedi pennu 11 Ionawr 2019 fel y dyddiad y gall etholwyr lleol ddechrau arfer eu hawliau ar gyfer cyfrifon 2013-14 hyd at 2016-17 o dan y Ddeddf.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflen Flynyddol

26 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Ffurflen Flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol ynghylch y trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol y mae wedi'u rhoi ar waith. Cyfeirir at hyn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

27 Er y gall union eiriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae'n ymdrin yn fras â'r eitemau a nodir yn Arddangosyn 2:

- paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn briodol;
- sicrhau y rhoddir cyfle priodol i arfer hawliau'r etholwr i archwilio'r cyfrifon;

- cwblhau asesiad blynyddol o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor a nodi pa gamau a gymerwyd i reoli'r risgiau hyn;
- cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i rwystro a chanfod twyll a llygredd; a
- cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol.

28 Ar gyfer y ddwy flwyddyn archwilio a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn, sef 2013-14 a 2014-15, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r datganiadau ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyhoeddedig. Nid yw'r Cyngor wedi amodi ei ymatebion nac wedi rhoi esboniadau mewn meysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau.

29 Fel y nodais uchod, nid yw'r Cyngor wedi paratoi na chymeradwyo ei gyfrifon ar gyfer y blynyddoedd ariannol o 2013-14 i 2016-17 yn briodol ac nid yw ychwaith wedi rhoi tystiolaeth i ddangos bod hawliau'r etholwr wedi'u dilyn.

30 Mae Ffurflenni Blynyddol 2013-14 a 2014-15 yn honni bod y Cyngor wedi ymgymryd ag asesiad risg ffurfiol a bod camau wedi'u cymryd i reoli'r risgiau a nodwyd. Nododd adroddiad yr archwilydd mewnol ar gyfer 2013-14 nad oedd tystiolaeth i ategu'r honiad hwn. Ar gyfer 2014-15, nododd yr archwilydd mewnol fod polisi newydd ar risg wedi cael ei gyflwyno. Dywedodd y Cyngor wrth fy staff fod y polisi newydd hwn yn waith a oedd yn mynd rhagddo. Deallaf fod y polisi asesu risg bellach wedi'i gwblhau.

31 Mae Ffurflenni Blynyddol 2013-14 a 2014-15 yn honni bod y Cyngor wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i rwystro a chanfod twyll a llygredd. Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn nodi sawl diffyg a gwendid yn rheolaethau mewnol y Cyngor sydd wedi bod yn amlwg iawn yn ystod yr archwiliad mewnol ac allanol.

32 Felly, mae'r datgeliadau llywodraethu a wnaed gan y Cyngor, yn fy marn i, yn anghyson â'r sefyllfa a adlewyrchir yn ei ddogfennaeth ac yn wir yng nghynnwys adroddiad ei archwilydd mewnol ei hun sydd hefyd wedi ei gynnwys yn y Ffurflen Flynyddol.

33 Mae'n amlwg i mi na wnaeth y Cyngor gymryd camau digonol i fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu wedi'u datgelu'n effeithiol ac yn deg yn ystod y cyfnod hwn. Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn bellach nad ydynt wedi cydnabod canfyddiadau cynharach eu harchwilydd mewnol na'r archwilydd allanol mewn perthynas â digonolrwydd eu trefniadau llywodraethu nac wedi gweithredu arnynt yn ddigonol.

## Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i arian

34 Mae'r cyhoeddiad **Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr** (2011) yn nodi'r mathau o reolaethau mewnol a ddylai fod ar waith mewn cynghorau tref a chymuned mewn perthynas â'u

gweithgareddau a'u trafodion. Nodir y rhain yn Arddangosyn 2 isod ynghyd â'r trefniadau gwirioneddol yr wyf fi ac archwilydd mewnol y Cyngor wedi canfod eu bod ar waith yn y Cyngor.

Arddangosyn 2: rheolaethau mewnol disgwyliedig a gwirioneddol sydd ar waith yn y Cyngor

| Rheolaeth fewnol ddisgwyliedig | Beth rydym wedi ei ganfod sydd ar waith |
|---|---|
| Mae'r gofyniad blynyddol am braesept yn deillio o broses gyllidebol, caiff cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. | • Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi pennu cyllideb flynyddol a gafodd ei monitro'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn. |
| Cysoni rhwng cyfrifon y Cyngor a chofnodion bancio annibynnol, h.y. cyfriflenni banc.<br>Mae'r cysoniad banc ynghyd â chyfriflenni banc diwedd blwyddyn yn rhoi sicrwydd pwysig i'r Cyngor bod y cyfrifon a baratowyd gan ei Glerc yn gyflawn ac yn adlewyrchu'r arian a adneuwyd yn y banc. | • Ni chwblhaodd y Cyngor gysoniad banc diwedd blwyddyn i gyd-fynd â'r cyfrifon blynyddol a gynhwyswyd yn ei Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2013-14 a 2014-15.<br>• Yn y ddwy flynedd hyn, cwblhaodd Archwilydd Mewnol y Cyngor gysoniad banc i fodloni ei hun bod y cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion banc. |
| Mae rheolaethau gwariant yn sicrhau mai dim ond pryniannau angenrheidiol ac awdurdodedig a wneir.<br>Mae rheolaethau hefyd yn sicrhau mai dim ond taliadau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd mewn gwirionedd ac am brisiau cytûn a wna'r Cyngor.<br>Fel corff a gwmpesir gan Adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth 1994, gall y Cyngor adennill TAW a delir ar bryniannau.<br>Er mwyn gwneud hynny, dylai'r Cyngor gael derbynebau ac anfonebau TAW priodol yn nodi manylion perthnasol y TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr. | • Ni chaiff taliadau eu hategu bob amser gan wybodaeth ddigonol.<br>• Rhoddodd y Cyngor siec o £350.00 i'r Clerc tuag at gost gliniadur yr oedd cyngor cyfagos eisoes wedi talu'n llawn amdano lle roedd y Clerc hefyd yn gweithio.<br>• Ni wnaeth y Cyngor gais i adennill TAW tan fis Mai 2015. |
| Fel cyflogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i CThEM bob mis neu chwarter ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Gelwir y system hon yn Talu Wrth Ennill (TWE). Mae'n rhaid i ddidyniadau TWE gael eu talu i CThEM.<br><br>Mae'n rhaid i bob cyflogwr hefyd gadw cofnodion cyflogres. | • Ni chadwyd cofnodion cyflogres priodol fel sy'n ofynnol.<br>• Nid oedd trefniadau priodol ar waith i weithredu TWE fel y disgwylir gan CThEM.<br>• Mae'r Cyngor wedi derbyn sylwadau ar eu golwg a wnaed gan y Cyngor fod ganddo ddidyniadau priodol ar gyfer enillion ei Gyngor drwy broses Hunanasesu CThEM.<br>• Ni chofrestrodd y Clerc y Cyngor fel cyflogwr gyda CThEM tan fis Gorffennaf 2017. |

| Rheolaeth fewnol ddisgwyliedig | Beth rydym wedi ei ganfod sydd ar waith |
|---|---|
| Dylai rheolaethau mewnol sicrhau bod y Cyngor yn cynnal cofnodion cyfrifyddu incwm yn gywir. | Cedwir cofnodion anghyflawn mewn perthynas ag incwm sy'n deillio o:<br>• gladdedigaethau ac agor beddau; a<br>• rhenti tenantiaid. |
| Dylai rheolaethau mewnol fod ar waith i ddiogelu'r asedau a'r buddsoddiadau a ddelir gan y Cyngor o golled neu ddifrod ac i sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol yn y gymuned. | • Ni chadwodd y Cyngor gofrestr asedau.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar un yn ddiweddar.<br>• Nid oedd gan y cyngor drefniant ar gyfer rhannu costau na pherchenogaeth asedau (Gliniadur ac Argraffydd) â chyngor cyfagos a oedd hefyd yn cyflogi'r un Clerc. |

## Mae effeithiolrwydd archwilio mewnol wedi cael ei leihau gan amharodrwydd i roi gwybod i'r Cyngor yn uniongyrchol am bryderon ynghylch llywodraethu gwael

35 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor tref a chymuned yng Nghymru roi system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith. Rôl gwaith archwilio mewnol yw archwilio sawl maes allweddol o drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol y Cyngor a thynnu sylw at unrhyw ddiffygion perthnasol.

36 Er y gall yr union ofynion a nodir yn flynyddol ar gyfer archwiliad mewnol yn y Ffurflen Flynyddol amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, mae'r canlynol a gymerwyd o ddatganiad 2014-15 yn dangos enghraifft nodweddiadol o'r meysydd i'w hystyried:

- Bodlonwyd rheoliadau ariannol y Cyngor, ategwyd taliadau ban anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW;
- mae'r Cyngor yn asesu'r risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac yn adolygu digonolrwydd y trefniadau i'w rheoli;
- deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept o broses gyllidebu ddigonol, caiff cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro’n rheolaidd, ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn briodol;
- cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW;
- talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau'r Cyngor, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol;
- roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol;
- cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol; a

- chafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau neu incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.

37 Roedd Archwilydd Mewnol y Cyngor wedi cael ei gyflogi gan y Cyngor ers sawl blwyddyn ac wedi darparu gwasanaeth archwilio mewnol i fwyafrif o gynghorau tref a chymuned Ynys Môn. Ymddeolodd o'r rôl yn ystod hydref 2017. Roedd yr Archwilydd Mewnol yn brofiadol iawn ac wedi gwasanaethu gynt fel Cyfarwyddwr Cyllid prif awdurdod lleol. Roedd hefyd wedi meithrin cydberthnasau gwaith da gyda Hacker Young, archwilydd allanol y Cyngor hyd at 1 Ebrill 2015.

38 O gofio ei brofiad, ei annibyniaeth a'i gysylltiad hirdymor â'r Cyngor, roedd y trefniadau ar gyfer rheoli ei benodiad yn anffurfiol i raddau helaeth. Nid oedd y Cyngor wedi cymeradwyo cylch gorchwyl cyfredol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol ac ni chafodd ei benodiad ei adolygu'n ffurfiol na'i gofnodi bob blwyddyn. Cwblhaodd yr Archwilydd Mewnol yr adroddiad ar yr archwiliad mewnol yn llawn ar y Ffurflen Flynyddol ond ni roddodd unrhyw adroddiad na gohebiaeth ychwanegol i'r Cyngor yn ymhelaethu ar ei ganfyddiadau archwilio.

39 Tynnodd adroddiadau archwilio mewnol 2013-14 a 2014-15 sylw at sawl gwendid a hepgoriad yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. O ganlyniad i'r adroddiadau hyn, ynghyd ag oedi ar ran y Cyngor cyn cyflwyno'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer archwiliad, aeth Hacker Young ati i gynnal archwiliad allanol llawn o gyfrifon 2013-14 y Cyngor. Fodd bynnag, ni chwblhawyd yr archwiliad hwn gan na chafwyd ymateb digonol gan y Cyngor mewn perthynas â'r cyfraniad o £350 tuag at gost gliniadur y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

40 Mae'n amlwg o'n trafodaethau â Chadeirydd cyfredol y Cyngor bod y Cyngor yn ymwybodol bod perthynas dan bwysau rhwng yr Archwilydd Mewnol a'r Clerc blaenorol. Roedd y Clerc blaenorol yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr Archwilydd Mewnol ac roedd am i'r Cyngor benodi rhywun newydd. Er i'r Cyngor gael ei hysbysu am hyn gan y Clerc blaenorol, ni chafodd pryderon yr Archwilydd Mewnol am drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol eu cyfleu mor amlwg.

41 Wrth adolygu cofnodion y Cyngor, mae'n amlwg na neilltuwyd fawr ddim amser yng nghyfarfodydd y Cyngor i drafod y Ffurflen Flynyddol na'r datgeliadau a wnaed mewn perthynas â'i drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol gan yr Archwilydd Mewnol.

42 Dim ond ar ôl i'r Clerc blaenorol ymddiswyddo ac i bapurau'r Cyngor gael eu dychwelyd y gwnaeth y Cadeirydd ganfod graddau'r pryderon a oedd yn cael eu codi mewn gohebiaeth gan Hacker Young. Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol bod Hacker Young wedi cychwyn archwiliad llawn o gyfrifon 2013-14 ac nad oedd wedi gallu gwneud unrhyw gynnydd sylweddol gyda chyfrifon 2014-15.

43 Mae'n wir hefyd, er y byddai'r Archwilydd Mewnol yn rhannu ei bryderon â'r Clerc blaenorol ac yn eu cynnwys mewn trafodaethau â'r archwilydd allanol, ni wnaeth uwchgyfeirio materion o fewn y Cyngor, megis ceisio neilltuo amser yn un o

gyfarfodydd y Cyngor lle y gallai rannu ei bryderon ag aelodau yn uniongyrchol. Fel arall, gallai fod wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig manwl yn uniongyrchol i'r Cyngor i gefnogi'r pryderon a nodwyd yn y Ffurflen Flynyddol. Pe bai wedi gwneud hynny, rwy'n credu y gellid bod wedi datrys materion yn gynt.

44 Mae'r Cadeirydd yn derbyn, gydag ôl-ddoethineb, na wnaeth y Cyngor graffu'n ddigonol nac yn briodol ar y Clerc blaenorol. Roedd y diffyg trosolwg a rheoli hyn yn golygu bod y Clerc blaenorol yn gallu cuddio materion pwysig a oedd yn cael eu codi mewn archwiliad rhag y Cyngor. Cyfaddefa'r Cadeirydd nad oedd trosolwg na phroses briodol o graffu ar y Ffurflen Flynyddol.

45 Mae ymddeoliad Archwilydd Mewnol y Cyngor yn golygu bod angen i'r Cyngor ddod o hyd i rywun newydd yn awr. Mae'n bwysig bod yr Archwilydd Mewnol yn annibynnol ar y Cyngor ac yn cael ei gyflogi i gyflawni rhaglen waith gytûn. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr archwilydd yn gallu rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â threfniadau llywodraethu a rheoli ariannol y Cyngor heb i'r Clerc reoli a dylanwadu arno'n ormodol. Dylid ystyried perfformiad yr archwilydd mewnol bob blwyddyn a dylid cofnodi'r broses o'i ailbenodi.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau pwysig i fynd i'r afael â'r gwendidau o ran llywodraethu y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn

46 Ers i'm staff archwilio gyfarfod â'r Cyngor ym mis Awst 2017 i godi pryderon am ei drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol, mae wedi myfyrio'n ofalus ar ei drefniadau a'i ddiwylliant. Mewn ymateb i'm canfyddiadau cychwynnol, pwysleisiodd y Cyngor er y bu gohebiaeth rhwng yr archwilydd penodedig a'r clerc blaenorol a chadeiryddion blaenorol, nad oedd y Cyngor cyfan wedi cael ei hysbysu am y materion a nodir uchod gan y clerc blaenorol na chan y cadeiryddion blaenorol. Mae sawl newid pwysig wedi digwydd yn y Cyngor ers hynny.

47 Dywedir bod meddylfryd aelodau'r Cyngor wedi newid a bod y Cyngor bellach yn sefydliad wedi ei arwain gan aelodau yn hytrach nag un sy'n gweithio yn unol ag agenda a bennir gan y Clerc. Mae dyddiadau cyfarfodydd wedi cael eu hadolygu a'u haildrefnu i hwyluso'r broses briodol o graffu ar faterion yn ymwneud â threfniadau llywodraethu a rheoli ariannol.

48 Mae'r Cyngor wedi cael adolygiad annibynnol o'i drefniadau ac mae'n cyflwyno polisïau a gweithdrefnau diwygiedig. Yn benodol, mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu gweithdrefnau awdurdodi taliadau ac yn rhoi trefniadau gwell ar waith i nodi a rhoi cyfrif priodol am incwm y Cyngor o renti mynwentydd ac eiddo.

# Argymhellion

49 Mae fy argymhellion i'r Cyngor wedi'u nodi yn Arddangosyn 3 isod.

Arddangosyn 3: argymhellion i'r Cyngor

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor neilltuo digon o amser i graffu ar y Ffurflen Flynyddol cyn ei hanfon at yr archwilydd allanol. |
| A2 | Dylai'r Cyngor gyflwyno set gynhwysfawr o reolaethau ariannol mewnol a dogfennu ei drefniadau rheoli ariannol. |
| A3 | Dylai'r Cyngor ystyried gwahodd yr archwilydd mewnol i'r cyfarfod blynyddol lle y caiff yr adroddiad archwilio mewnol ei drafod er mwyn hwyluso'r broses o gyfnewid barn yn agored ac yn onest. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael copi o adroddiad blynyddol a thystysgrif yr Archwilydd Allanol a'u bod yn cael eu hystyried yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Cyngor. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol i hwyluso hawliau etholwr i archwilio'r cyfrifon blynyddol ac ymgysylltu â'r archwilydd allanol, a dylai gadw tystiolaeth o'r cydymffurfio hynny. |

# Y camau nesaf

50 Mae Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- p'un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- p'un a gaiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu derbyn; a
- pha gamau gweithredu (os o gwbl) y bydd yn eu cymryd i ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

51 Yna, bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw â mi cyn cyhoeddi ei ymateb.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

30 Ionawr 2019

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru